

Y bennod nesaf yn ein cynllun i ailadeiladu:

Strategaeth adferiad COVID-19 Llywodraeth y DU

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan y Prif Weinidog
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorffennaf 2020
CP 279



HM Government



© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-2089-5
CCS0720895930
07/20

Argraffwyd ar bapur â lleiafswm cynnwys 75% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan y Grŵp APS ar ran Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Cynnwys

Y bennod nesaf yn ein cynllun i ailadeiladu

Cyflwyniad

Atal y Feirws

Agor Cymdeithas a'r Economi

Parhau â'n Cynllun i Ailadeiladu

Paratoi at y Gaeaf

Codi'r Cyfyngiadau Cam wrth Gam

Y bennod nesaf yn ein cynllun i ailadeiladu

Cyflwyniad

Ar 11 Mai cyhoeddodd y Llywodraeth 'Ein cynllun i ailadeiladu: Strategaeth adferiad COVID-19 Llywodraeth y DU Nod y Llywodraeth wrth wraidd y cynllun hwnnw oedd dychwelyd i fywyd sydd mor agos at normal â phosibl, i gynifer o bobl ledled y DU â phosibl, mor gyflym ac mor deg â phosibl; mewn ffordd sy'n osgoi epidemig newydd, sy'n lleihau nifer y bywydau a gollir ac sy'n sicrhau'r canlyniadau iechyd, economaidd a chymdeithasol gorau posibl.

Rydym wedi dilyn ein cynllun ac mae'r feirws yn cilio. Rydym wedi agor yr economi a chymdeithas yn ofalus ac yn bwylllog, gan gyflwyno Canllawiau Diogel COVID-19 i gadw pobl a busnesau yn ddiogel wrth iddynt groesawu cwsmeriaid a staff yn ôl. Rydym wedi lansio Prawf ac Olrhain y GIG, gan gynnwys y Gydganolfan Bioddiogelwch, sy'n chwarae rhan hanfodol wrth fonitro ac atal y firws, ac rydym wedi ceisio disodli cyfyngiadau symud cenedlaethol yn ofalus gyda chyfyngiadau symud lleol wedi'u targedu. I lawer o bobl, nid yw'n teimlo bod bywyd yn ôl i'r arferol eto, ond rydym wedi addasu ein ffordd o fyw i gadw ein hunain a'n cymunedau yn ddiogel. Gyda'n gilydd, rydym wedi sicrhau nad yw'r rhif R - nifer cyfartalog y bobl sydd wedi'u heintio sy'n trosglwyddo'r feirws - wedi codi uwchlaw 1, o'i gymharu â'i gyfradd heb ei leddfu o 2.8-3.0.

Bydd angen i ni barhau i weithredu'n bwylllog. Rydym wedi cyrraedd y pwynt hwn diolch i aberth pobl Prydain, a rhaid i ni barhau i ailagor mewn ffordd nad yw'n dad-wneud yr ymdrech honno. Byddwn yn parhau i fonitro'r feirws yn ofalus, ac ni fyddwn yn ymgilio rhag gweithredu pan fydd angen. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yng

Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gefnogi a gofalu am y rhai hynny sydd mewn perygl, ble bynnag maent yn byw yn y DU. Mae'r bennod ychwanegol hon yn y strategaeth adferiad yn nodi camau nesaf ein cynllun. Mae'n edrych ymlaen at y misoedd nesaf, gan gwmpasu'r arfau y byddwn yn eu defnyddio i atal y feirws, yr heriau y bydd y gaeaf yn eu cyflwyno a sut rydym yn paratoi ar gyfer y rhain, a'n huchelgais ar gyfer parhau i ailagor yr economi a chymdeithas pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.

Atal y Feirws

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau lledaeniad yr epidemig. Mae arolwg heintiau'r ONS yn dangos bod nifer yr heintiau newydd a phobl â COVID-19 ar unrhyw adeg benodol wedi gostwng yn sylweddol ers cyhoeddi 'Ein cynllun i ailadeiladu' ym mis Mai, ac mae bellach yn sefydlog ac yn isel. Mae nifer y bobl sy'n marw bob dydd o COVID-19 wedi gostwng o uchafbwynt o 1,173 yng nghanol mis Ebrill i gyfartaledd o 74 dros y saith diwrnod diwethaf.

Mae'r pwysau ar gapasiti'r GIG o ganlyniad i COVID-19 wedi parhau i ostwng: mae nifer y derbyniadau ysbyty COVID-19 newydd bob dydd a nifer y cleifion COVID-19 mewn gwelyau â pheiriannau anadlu yn y DU wedi gostwng dros 90% o'u uchafbwynt ddechrau mis Ebrill. Erbyn hyn, mae llai na 2,000 o bobl yn yr ysbyty oherwydd COVID-19 yn y DU, o'i gymharu ag uchafbwynt o 20,219 ar 12 Ebrill. Mae presenoldeb y GIG yn parhau i fod yn is na lefelau cyn y cyfyngiadau symud, er enghraifft roedd atgyfeiriadau gan feddygon teulu ym mis Mai 2020 wedi gostwng i 71.8% o gymharu â lefelau Mai 2019 (nodyn 1). Er mwyn sicrhau y bydd pobl yn gallu cynnal iechyd da, mae'n bwysig bod pobl yn dychwelyd i ddefnyddio gwasanaethau iechyd gan wybod ei bod yn ddiogel gwneud hynny, gan gynnwys cyrchu gwasanaethau sgrinio lleol neu

geisio apwyntiad ffôn neu apwyntiad o bell gyda'u meddyg teulu neu drwy ddefnyddio GIG 111 yn gyntaf i wneud yn siŵr eu bod yn derbyn gofal yn y lleoliad cywir yn hytrach nag aros i gael eu gweld yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Ar gyfer y cleifion hynny sydd angen mynd i ysbytai, rydym eisoes wedi cyhoeddi mwy o arian ar gyfer capasiti Damweiniau ac Achosion Brys y GIG ac wedi cyflwyno mesurau i leihau heintiau a geir mewn ysbytai.

Erbyn hyn rydym yn gallu nodi achosion yn gynnar ar lefelau lleol a rhanbarthol, ac rydym wedi cymryd camau i sicrhau ymyrraeth leol briodol. Mae achosion lleol yn cael eu nodi a'u rheoli trwy fonitro'r data sydd ar gael yn barhaus, gan ddefnyddio Profi ac Olrhain y GIG ac lechyd Cyhoeddus Lloegr, i helpu i nodi achosion posibl yn gynnar. Yna maent yn gweithio ag awdurdodau lleol i ddeall y sefyllfa'n fanwl a gweithredu. Mae angen dulliau gwahanol yn unol ag amgylchiadau lleol. Mewn rhai lleoedd, mae achosion wedi digwydd mewn safleoedd unigol, megis gweithleoedd, felly mae'r ymateb wedi canolbwyntio ar y lleoliadau penodol hynny yn unig, ond mae achosion eraill wedi galw am lefel uwch o ymyrraeth. Yn Weston-super-Mare, defnyddiodd y GIG weithdrefnau rheoli heintiau a chymorth ar y cyd i ddod ag achos mewn ysbyty dan reolaeth; yn Kirklees, gweithiodd lechyd Cyhoeddus Lloegr gyda chyflogwyr lleol i gyfyngu achos mewn ffatri brosesu cig; yn Blackburn gyda Darwen, gweithredodd arweinwyr lleol yn gyflym i wella ymgysylltiad cymunedol ac ymwybyddiaeth o ganllawiau i ffrwyno lledaeniad; ac yng Nghaerlŷr, rydym wedi ymgymryd ag ymyriadau ar raddfa fawr oherwydd graddfa'r achosion. Yn y dyfodol, gallai ymatebion i achosion gynnwys defnyddio gallu profi gwell, cau lleoliadau penodol er mwyn atal yr achosion, a chynnal ymgyrch gyfathrebu i ymgysylltu â'r gymuned i annog cydymffurfriad â chadw pellter cymdeithasol a chymryd rhan ym Mhrofi ac Olrhain y GIG. Bydd cyfyngiadau symud lleol yn parhau i fod yn ddewis olaf pan na fydd gweithredoedd eraill yn ddigonol.

Rydym yn sicrhau bod data'n cael eu rhannu gydag awdurdodau lleol fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus am y camau a allai fod yn angenrheidiol. Bellach mae gan bob awdurdod lleol haen uchaf fynediad at ddata dyddiol, lefel cod post ar niferoedd achosion, niferoedd profi a gwybodaeth berthnasol gan alwadau GIG 111 a 999 am eu hardal. Maent hefyd wedi datblygu cynlluniau lleol ar gyfer achosion sy'n benodol i'w hardal a'u cymuned. Mae cyfanswm yr achosion a nodwyd a chyfradd COVID-19 ar gael i'r cyhoedd ar lefel awdurdod lleol haen uchaf ac awdurdod lleol haen isaf yn genedlaethol ar ddangosfwrdd GOV.UK COVID-19. Mae Profi ac Olrhain y GIG yn gweithredu yn Lloegr yn unig, ond mae systemau olrhain cyswllt tebyg yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae trefniadau sefydledig i weinyddiaethau ac asiantaethau iechyd y cyhoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gydweithredu a sicrhau bod ein dulliau yn gydnaws, wrth ddiwallu anghenion y cenhedloedd unigol ar yr un pryd.

Mae'r Fframwaith CONTAIN [CYFYNGU], a gyhoeddwyd heddiw, yn nodi sut y bydd awdurdodau lleol a Llywodraeth genedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd i reoli achosion lleol. Ar 18 Gorffennaf, bydd gan awdurdodau lleol bwerau newydd i gau safleoedd penodol, cau mannau awyr agored cyhoeddus, a chanslo digwyddiadau. Bydd y pwerau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i weithredu'n gyflymach mewn ymateb i achosion lleol, lle mae cyflymder o'r pwys mwyaf i'w hatal rhag lledaenu'n ehangach. Bydd y defnydd o'r pwerau hyn yn amodol ar y llwybrau apelio a'r strwythurau goruchwylio angenrheidiol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol.

Byddwn hefyd yn nodi'n glir sut y byddai Gweinidogion yn defnyddio eu pwerau i reoli achos os nad yw gweithredu ar lefel lleol yn ddigonol, gan adeiladu ar y dulliau a gymerir yn genedlaethol ac yng Nghaerlŷr, gan weithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig mewn ardaloedd trawsffiniol.

Cyhoeddir rheoliadau drafft yr wythnos nesaf, a fyddai'n galluogi Gweinidogion i:

- gau busnesau a lleoliadau mewn sectorau cyfan (megis cynhyrchu bwyd neu fanwerthu nad yw'n hanfodol), neu o fewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig (megis trefi neu siroedd);
- gosod cyfyngiadau cyffredinol ar symudiadau pobl (gan gynnwys gofynion i 'aros gartref' neu i atal pobl rhag aros oddi cartref dros nos, neu gyfyngiadau ar fynd i mewn i ardal ddiffiniedig neu ei gadael);
- gosod cyfyngiadau ar gynulliadau trwy gyfyngu ar faint o bobl sy'n gallu cwrdd ac a allant deithio i mewn i ardal ac allan ohoni i wneud hynny;
- cyfyngu ar systemau trafnidiaeth lleol neu genedlaethol trwy eu cau'n gyfan gwbl, neu gyflwyno cyfyngiadau ar gapasiti neu gyfyngiadau daearyddol; a
- gorfodi'r defnydd o orchuddion wyneb mewn ystod ehangach o fannau cyhoeddus.

Lle bydd angen, bydd Gweinidogion yn defnyddio'r pwerau hyn – trwy osod rheoliadau yn Senedd y DU – mewn ffordd sydd wedi'i thargedu ac sy'n ymateb i'r amgylchiadau penodol mewn ardal sy'n profi achos. Ein bwriad yw y dylid defnyddio'r pwerau hyn i alluogi camau gweithredu lleol sydd wedi'u targedu, ond byddai'r pwerau hyn yn dal i ganiatáu i ni ail-osod cyfyngiadau yn genedlaethol pe byddai hynny'n angenrheidiol.

Bydd y mesurau hyn yn caniatáu ymyriadau sydd wedi'u targedu'n effeithiol, wrth geisio osgoi dychwelyd i gyfyngiadau symud cenedlaethol. Pe byddai angen i'r Llywodraeth wneud ymyriad sylweddol, byddai'n ceisio gwneud hynny mewn ffordd sy'n targedu trosglwyddiad y feirws wrth leihau'r aflonyddwch i'r

economi a chymdeithas. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig i archwilio sut y gall Y Gydganolfan Bioddiogelwch weithredu'n fwyaf effeithiol ledled y DU, a bydd yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y fframweithiau a'r sefydliadau sydd ar waith ar gyfer monitro ac ymateb i achosion. Wrth i ni symud tuag at adferiad, mae gan y Llywodraeth gyfrifoldeb i adeiladu seilwaith iechyd y cyhoedd a llywodraeth a fydd yn amddiffyn y wlad rhag y bygythiad hwn a bygythiadau bioddiogelwch eraill.

Agor Cymdeithas a'r Economi

Mae'r achos COVID-19 wedi arwain at un o'r siociau mwyaf erioed i economi'r DU a'i chyllid cyhoeddus. Roedd economi'r DU ym mis Mai oddeutu chwarter (nodyn 2) yn llai nag ym mis Chwefror 2020 ac mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn asesu bod y wlad ar drywydd i gofnodi'r cwmp blynyddol mwyaf mewn GDP [Cynnyrch Domestig Gros] ers 300 mlynedd (nodyn 3). Mae'r OBR yn credu y byddai'r rhagolygon wedi bod yn waeth o lawer heb y mesurau y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd i gefnogi unigolion a busnesau, a ddylai helpu i gyfyngu ar greithio tymor hir (nodyn 4). Fodd bynnag, mae effaith y feirws a'r mesurau yr ydym wedi gorfod eu rhoi ar waith wedi bod yn bellgyrhaeddol, gan effeithio ar swyddi, bywoliaethau a lles pobl.

Er bod yr effeithiau hyn wedi bod yn eang, nid ydynt wedi'u dosbarthu'n gyfartal. Mae tystiolaeth yn dangos yr effeithiau amrywiol ar wahanol grwpiau neu bobl â nodweddion penodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i unigolion BAME, rhieni sengl, unigolion anabl, dioddefwyr cam-drin domestig a grwpiau incwm isel (nodyn 5), y mae llawer ohonynt wedi cael eu heffeithio'n anghymesur. Rydym wedi cymryd camau i leddfu'r effaith ar y grwpiau hyn, er enghraifft, teilwra cyfathrebiadau i wahanol grwpiau, hwyluso profion ar gyfer

proffesiynau â chyswllt uchel, galluogi cartrefi ag oedolion sengl i ffurfio swigod cefnogaeth, darparu cyllid i elusennau sy'n gweithio gyda phobl agored i niwed, megis dioddefwyr cam-drin domestig, a chynorthwyo pobl anabl i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth trwy'r cynllun Mynediad i Waith. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn er mwyn deall ysgogwyr allweddol y gwahaniaethau hyn, teilwra ein hymyriadau a thargeddu gwybodaeth yn well i sicrhau eu bod yn cyrraedd pob cymuned ledled y wlad.

Trwy ddilyn y map ffordd a nodwyd gennym ar 11 Mai, rydym wedi gallu dechrau adfywio ein cymdeithas a'n heconomi, wrth barhau i atal y feirws. Rydym wedi ei gwneud yn bosibl i bobl weld eu ffrindiau a'u teulu eto, ac wedi galluogi cartrefi ag oedolion sengl, a fu'n fwyaf ynysig yn aml, i ffurfio swigod cefnogaeth. Rydym hefyd wedi sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus wedi parhau i ddarparu cefnogaeth i'r rhai hynny y mae ei hangen arnynt, ac mae dychweliad i'r lefelau gwasanaeth arferol bellach ar y gweill. Rydym wedi ailagor siopau, bwytai, bariau a thafarndai, llety, atyniadau i ymwelwyr, trinwyr gwallt, harddwyr a gwasanaethau cyswllt agos eraill, a busnesau a chyfleusterau hamdden. Rydym bellach yn cynghori pobl y gallant ddefnyddio cludiant cyhoeddus, wrth eu hannog i ystyried dulliau amgen o deithio lle mae hynny'n bosibl. Disgwylir i gampfeydd a chyfleusterau eraill ar gyfer chwaraeon dan do agor ar 25 Gorffennaf. Rydym wedi caniatáu perfformiadau awyr agored ac yn gweithio gyda'r diwydiannau creadigol i dreialu perfformiadau dan do mewn theatrau i gael cynulleidfaoedd yn ôl i'n sector diwylliannol bywiog cyn gynted ag y bo'n ddiogel.

Rydym wedi gallu gwneud hyn diolch i aberthau'r cyhoedd ym Mhrydain, sydd wedi gwneud y peth iawn ac wedi cadw at y canllawiau a roddwyd ar waith. Mae busnesau, sefydliadau, elusennau a chyrrff y sector cyhoeddus wedi cymryd y camau angenrheidiol i wneud y lleoedd a'r gwasanaethau y maent yn

eu darparu'n Ddiogel yn erbyn COVID-19, gan sicrhau y gall pobl weithio, siopa a mwynhau amser hamdden a gwyliau'n ddiogel. Gwnaed hyn yn bosibl trwy'r canllawiau Diogel yn erbyn COVID-19, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad agos â PHE, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, diwydiant ac undebau llafur. Wrth i ni ddibynnu fwyfwy ar gamau lleol i atal y feirws, caiff y canllawiau hyn eu gorfodi gan awdurdodau lleol, gan ddefnyddio eu pwerau newydd, fel yr amlinellwyd uchod.

Parhau â'n Cynllun i Ailadeiladu

Rhaid i bawb barhau i chwarae eu rhan trwy ddilyn cyngor a chanllawiau ar sut i gyfyngu ar ledaeniad y feirws. Mae'n hanfodol bod pobl yn cynnal arferion hylendid da: golchi dwylo a diheintio arwynebau'n rheolaidd y mae pobl eraill yn cyffwrdd â nhw a chadw pellter cymdeithasol. Ers 11 Mai mae'r Llywodraeth wedi annog pobl i wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau caeedig lle maent yn cael cyswllt agos â phobl nad ydynt fel arfer yn cwrdd â nhw. Yn Lloegr, mae gorchuddion wyneb wedi bod yn orfodol ar gludiant cyhoeddus ers 15 Mehefin, a byddant yn orfodol mewn siopau ac archfarchnadoedd o 24 Gorffennaf ymlaen.

Bellach mae gennym allu profi digonol fely gall pawb sydd â symptomau – waeth beth yw eu hoedran neu eu proffesiwn – gyrchu prawf yn gyflym ac yn hawdd. Mae gallu profi antigen wedi cynyddu o lai na 2,000 o brofion y dydd ym mis Mawrth i bron i 200,000 y dydd heddiw. Mae methodolegau adrodd yn amrywio, ond mae data'n awgrymu bod y DU yn profi ar gyfradd uwch fesul 1,000 o'r boblogaeth na gwledydd eraill o faint tebyg, gan gynnwys yr Almaen a Sbaen. Os yw unrhyw un yn profi symptomau COVID-19, waeth pa mor ysgafn ydynt, mae'n hanfodol eu bod yn cael prawf ar unwaith. Rydym wedi sefydlu safleoedd profi ledled y wlad ac yn darparu mynediad lleol trwy

200 o unedau symudol ac yn datblygu ystod o safleoedd profi lleol gan weithio gydag awdurdodau lleol, gwasanaethau gofal sylfaenol ac eraill i sicrhau bod pawb yn gallu cyrchu prawf yn hawdd. Gall pobl archebu ar-lein neu trwy ffonio 119 (nodyn 6), a gallant gyrchu apwyntiadau ar y diwrnod nesaf. Mae 95% o brofion personol yn cael eu cyflawni erbyn y diwrnod dilynol. Mae'r canlyniadau'n cael eu trin yn gyfrinachol ac mae personél cymwys yn siarad â phobl am yr hyn i'w wneud i reoli eu cyflwr a chadw eu ffrindiau a'u teulu'n ddiogel trwy hunanynysu gartref. Mae Profi ac Orlhain y GIG hefyd yn gofyn am gysylltiadau agos diweddar unigolion fel y gellir eu cyrraedd a'u cynghori i hunanynysu, er mwyn helpu i dorri cadwyni trosglwyddo'r feirws a chefnogi dychwelyd i ffordd fwy normal o fyw. Mae'n hanfodol bwysig bod pawb yn chwarae eu rhan, gan ddilyn cyngor y GIG ar aros gartref os oes ganddynt y feirws neu os ydynt wedi bod mewn cysylltiad agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif.

Ochr yn ochr â phrofi'r rhai sydd â symptomau, rydym yn profi grwpiau penodol heb symptomau yn rhagweithiol er mwyn nodi achosion pellach. Mae hyn yn cynnwys cynyddu profion lle bynnag y mae achos yn digwydd, fel y gallwn ddod o hyd i bobl sydd â'r feirws ond nad ydynt yn dangos symptomau. Rydym hefyd yn cynnal cyfundrefnau profi wedi'u targedu ar gyfer y bobl sydd fwyaf mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r feirws, megis profion wythnosol ar gyfer staff cartrefi gofal, profi staff asymptomatig y GIG lle mae mynychder uchel, a gweithio gyda chwmnïau megis prif weithredwyr tacsis, y mae eu staff yn dod i gysylltiad â nifer fawr o bobl nad ydynt yn eu hadnabod. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i gydlynu ac alinio ymdrechion profi lle bo hynny'n bosibl, ar lefel strategol a gweithredol.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i adeiladu gwasanaeth Profi ac Orlhain y GIG i fod yn weithrediad o'r radd flaenaf ym maes rheoli heintiau. Rydym yn bwriadu cynyddu

capasiti profi antigen i hanner miliwn o brofion y dydd erbyn diwedd mis Hydref, â chanlyniadau profion personol yn dod yn ôl drannoeth. Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o gymhwysedd profi yn sylweddol gydag ymgyrch farchnata newydd ac yn cynyddu mynediad trwy safleoedd profi lleol lle gellir cerdded i mewn.

Er mwyn cefnogi'r nodau hyn, rydym yn dilyn nifer o strategaethau. Rydym yn gweithredu strategaeth gyfathrebu wedi'i thargedu i wella ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ymhlith cynulleidfaoedd â blaenoriaeth, gan gynnwys cymunedau BAME, pobl nad ydynt yn siarad Saesneg a grwpiau sydd mewn perygl. Byddwn hefyd yn cyflwyno proses o olrhain cyswllt yn ôl, er mwyn nodi ffynhonnell achos penodol a gwella ein dealltwriaeth o sut mae heintio'n lledaenu o amgylch rhwydweithiau cymdeithasol, proffesiynol ac addysgol. Byddwn yn cyflwyno ap, gan sicrhau'r safonau uchaf o breifatrwydd data a diogelwch data, er mwyn galluogi unigolion i archebu prawf yn hawdd, deall lefel eu risg ac, os yw treialon yn ei gefnogi, caniatáu ar gyfer olrhain cyswllt yn ddigidol. Bydd hefyd yn galluogi pobl i sganio'r codau QR unigryw o leoliadau y maent wedi ymweld â nhw i helpu i gynorthwyo olrhain cyswllt a deall lledaeniad y feirws.

Er mwyn cefnogi rheolaeth achosion lleol, byddwn yn cynyddu ein timau amddiffyn iechyd lleol ymhellach i roi arbenigedd ychwanegol i awdurdodau lleol ym meysydd iechyd yr amgylchedd, epidemioleg ac iechyd a diogelwch. Mae gennym gynlluniau eisoes i dreblu maint y timau hyn o 360 o bobl i 1,100 erbyn diwedd mis Gorffennaf a byddwn yn cynyddu hyn ymhellach cyn y gaeaf. Byddwn yn darparu mwy o ddata a mewnwleidiad trwy Iechyd Cyhoeddus Lloegr a'r Gydganolfan Bioddiogelwch er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau lleol i nodi achosion yn gynnar ac i roi camau ataliol ar waith yn gyflym. Byddwn yn ymgysylltu â busnesau yn lleol ac yn genedlaethol i roi'r canllawiau diweddaraf iddynt ar

sut y gallant leihau'r risg o achosion ar eu safle. Trwy'r camau a nodir uchod, bydd proses Profi ac Olrhain y GIG yn gallu cymryd camau effeithiol wedi'u targedu i helpu i reoli achosion lleol, a thrwy hynny gyfrannu at ostyngiad yn y tebygolrwydd o angen ymyriadau cenedlaethol ehangach. Dim ond â chydweithrediad llawn unigolion sy'n profi'n positif am COVID-19 a'u cysylltiadau agos y gall hyn weithio, a bydd y Llywodraeth yn adolygu cyfraddau cydymffurfio yn ofalus.

Gallai brechlynnau neu driniaethau sy'n seiliedig ar gyffuriau helpu i reoli'r epidemig neu wneud y feirws yn llai peryglus. Felly mae'r Llywodraeth yn parhau i ganolbwyntio ar fuddsoddi mewn ymchwil, datblygu partneriaethau rhyngwladol a sefydlu'r seilwaith i gynhyrchu a dosbarthu triniaethau a/neu frechlyn ar raddfa briodol. Bu cynnydd da hyd yn hyn. Er enghraifft, mae treial brechlyn gyda phobl a drefnir gan Brifysgol Rhydychen ar y gweill a disgwylir i ganlyniadau cynnar gael eu cyhoeddi'n fuan iawn. Mae treialon cam un Imperial College Llundain wedi cychwyn. O ran gweithgynhyrchu, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo £131m i hwyluso'r gwaith o sefydlu'r Ganolfan Arloesi Gweithgynhyrchu Brechlynnau (VMIC) yn Harwell.

Nid oes unrhyw sicrwydd y canfyddir brechlyn, a hyd yn oed os canfyddir un, gallai fod o leiaf 12 mis i ffwrdd, sy'n golygu bod gwaith ar ddatblygu triniaeth lwyddiannus yr un mor bwysig. Mae canlyniadau treialon clinigol parhaus eisoes yn cyflawni canlyniadau addawol. Mae RECOVERY, treial clinigol COVID-19 mwyaf y byd, â chefnogaeth Llywodraeth y DU ac a arweinir gan Brifysgol Rhydychen, wedi darganfod bod corticosteroid rhad, deksamethason, sydd ar gael yn eang, yn hynod effeithiol wrth leihau marwolaethau mewn cleifion COVID-19 sy'n ddigon sâl i fod angen triniaeth ocsigen.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i arweinyddiaeth ym maes iechyd byd-eang. Roedd yr Uwch-gynhadledd Brechlyn Byd-eang ar 4 Mehefin yn llwyddiant gydag \$8.8bn wedi'i sicrhau a

\$600m wedi'i godi ar gyfer Ymrwymiad Marchnad Uwch COVID, gan sicrhau cefnogaeth wleidyddol barhaus i iechyd byd-eang.

Wrth i ni barhau i atal y feirws gartref, mae'n rhaid i ni barhau i fod yn wylidwrus o'r risg o heintiau newydd sy'n cael eu mewnfario o dramor, trwy'r mesurau iechyd cyhoeddus a gyflwynwyd gennym ar y ffin. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i'r DU fod mor agored â phosibl i ymwelwyr rhyngwladol o dramor, ar gyfer masnach a hamdden, lle mae'n ddiogel gwneud hynny. Dyna pam rydym wedi cyflwyno coridorau teithio, fel nad oes angen i bobl sy'n cyrraedd o wledydd neu diriogaethau penodol hunanynysu am 14 diwrnod. Pan wneir cynnydd yn erbyn y feirws ledled y byd, rydym yn gobeithio parhau i sefydlu coridorau teithio gyda phartneriaid newydd. Bydd y rhestr o goridorau teithio yn cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau, os oes angen, y gellir tynnu gwledydd a thiriogaethau oddi ar yr rhestr ar unwaith ac ailgyflwyno mesurau iechyd amddiffynnol i helpu i atal y feirws rhag lledaenu yn y DU.

Paratoi am y Gaeaf

Er gwaethaf y llwyddiant wrth leihau baich y feirws yn sylweddol o'i anterth yn y gwanwyn, bydd y gaeaf sydd ar ddod yn cyflwyno heriau pellach (nodyn 7). Mae cydheintiau rhwng coronafeirysau tymhorol a feirysau anadlol eraill yn gyffredin. Er nad ydym yn deall y rhyngweithiadau rhwng COVID-19 a feirysau eraill yn llawn, mae ganddynt y potensial i fod yn negyddol ac maent yn debygol o fod yn fwy cyffredin yn y gaeaf. Mae ffactorau anhysbys o ran sut y gall tywydd oerach effeithio ar y feirws; mae peth tystiolaeth bod golau UV yn golygu bod arwynebau sy'n agored i olau'r haul yn llai croesawgar i'r feirws yn yr haf (nodyn 8), ac mae rhai achosion wedi digwydd mewn lleoliadau oer, llaith, megis ffatrioedd pacio cig. Wrth i'r tywydd oeri ac wrth i'r dyddiau fynd yn fyrrach,

byddem hefyd yn disgwyl i bobl dreulio mwy o amser dan do, lle mae'r risg o drosglwyddo yn uwch.

Mae risgiau eilaidd hefyd. Mae'r pwysau ar y GIG a seilwaith iechyd arall eisoes yn uwch yn y gaeaf oherwydd clefydau tymhorol eraill, fel y ffliw. Gallai'r risg hon gael ei gwaethygu trwy ohirio gofal nad yw'n fater brys, a oedd yn angenrheidiol i ymdopi â'r don gychwynnol o heintiau ym mis Mawrth a mis Ebrill. Bydd hyn hefyd yn cyflwyno heriau o ran gallu rhaglen Profi ac Olrhain y GIG, o ystyried y potensial ar gyfer cynnydd mewn feirysau anadlol eraill sydd â symptomau tebyg. Nid yw'r risgiau hyn yn unigryw i'r DU; bydd angen i ni ystyried effaith unrhyw achosion pellach mewn gwledydd cyfagos, gan gynnwys yr effaith ar gadwyni cyflenwi.

Mae'r Llywodraeth yn gwneud gwaith paratoadol i sicrhau ein bod mor barod â phosibl ar gyfer y risg o don newydd o'r feirws rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth. Mae ein cyd-ddealltwriaeth o'r feirws, a sut mae'n lledaenu trwy'r boblogaeth, wedi gwella'n sylweddol ers y don gychwynnol o heintiau ar ddechrau'r flwyddyn. Yn y misoedd sy'n dod, byddwn yn parhau i asesu'r hyn y gall y DU ei ddysgu gan genhedloedd eraill, ac yn cynnal cyfres o ymarferion i brofi cynlluniau gaeaf y Llywodraeth.

Fel rhan o'r paratodau hyn, mae'r Llywodraeth wedi darparu £3bn ychwanegol i'r GIG. Mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol i'r GIG i ganiatáu iddo barhau i ddefnyddio capasiti ychwanegol mewn ysbytai yn y sector annibynnol, ac i gynnal ysbytai Nightingale, yn eu cyflwr presennol, tan ddiwedd mis Mawrth. Byddwn hefyd yn ariannu polisi rhyddhau gwell a newydd i sicrhau y gellir rhyddhau cleifion yn gyflym ac yn ddiogel o ysbytai'r GIG, gan ryddhau gwelyau i gleifion eraill. Byddwn yn parhau i brofi pob claf sy'n cael ei ryddhau i gartref gofal cyn iddo gael ei dderbyn yno. Fe ddaw hyn ar ben mwy na £30bn o wariant ychwanegol ar iechyd a gofal cymdeithasol a gyhoeddwyd eisoes eleni, ac mae'r Llywodraeth yn parhau i fod

yn ymrwymedig i sicrhau bod y GIG yn cael y gefnogaeth y mae ei hangen arno trwy'r cyfnod hwn.

Yn ogystal, rydym yn archwilio pentyrrau stoc allweddol o gyfarpar a chyfarpar diogelu personol (PPE) i sicrhau bod gennym y stoc y mae ei angen arnom. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda chartrefi gofal i sicrhau eu bod yn barod i gadw preswylwyr a staff yn ddiogel trwy fisoedd y gaeaf. Y gaeaf hwn, byddwn yn cyflwyno'r rhaglen fwyaf ar gyfer brechu rhag y ffliw yn hanes y DU, gan ddarparu cyflenwadau ychwanegol o'r brechlyn i wella'r nifer sy'n ei dderbyn ymhlith y boblogaeth, yn arbennig ymhlith grwpiau sydd mewn perygl.

Codi'r Cyfyngiadau Cam wrth Gam

Rydym ar gam o'r epidemig lle mae nifer yr heintiau wedi gostwng yn sylweddol o'i anterth ac mae'r feirws dan reolaeth ar y cyfan yn y rhan fwyaf o'r DU. Wrth i ni barhau i agor yr economi a chaniatáu mwy o ryngweithio cymdeithasol, mae'r risg o drosglwyddo'r feirws yn parhau. Mae angen i ni i gyd barhau i leihau cyswllt agos â phobl nad ydym yn byw gyda nhw, dim ond cwrdd â grwpiau bach ar unrhyw un adeg (dim ond aelodau dwy aelwyd, neu chwech o bobl o sawl cartref os ydynt yn cwrdd yn yr awyr agored) a chyfyngu pa mor aml rydym yn cwrdd â gwahanol bobl yn gymdeithasol dros gyfnod byr er mwyn osgoi lledaenu'r feirws i grwpiau lluosog o bobl. Mae'n hanfodol bod pobl yn parhau i ddilyn y canllawiau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol i helpu i gadw pawb yn ddiogel oherwydd bod y risg o achos eang yn parhau.

Mae cydbwysedd gofalus i'w daro; dim ond oherwydd bod y cyfyngiadau ar gyswllt cymdeithasol yn parhau i fod ar waith y mae modd ailagor cymdeithas a'r economi yn ddiogel. Byddwn yn cadw'r canllawiau hyn dan adolygiad ac yn ceisio caniatáu mwy fyth o gyswllt rhwng teuluoedd a ffrindiau pan allwn ni.

Byddwn bob amser yn asesu cyflwr yr epidemig wrth ystyried a ddylid bwrw ymlaen â chamau pellach i ganiatáu i'r sectorau sy'n weddill ailagor, fel y disgrifir isod. Mae'r camau rydym wedi'u nodi yn cynrychioli ein huchelgais ar gyfer sut y gallai'r misoedd nesaf ddatblygu, ond dim ond os ydym yn parhau ar ein taflwybr cyfredol y gellir gwireddu'r uchelgais hon, lle mae nifer yr achosion yn sefydlog neu'n gostwng, ac mae achosion lleol yn cael eu nodi a'u hatal yn gyflym. Fel o'r blaen, bydd y newidiadau hyn yn berthnasol yn Lloegr.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd ton newydd o'r feirws yn golygu na ellir dilyn y cynllun isod yn ddiogel, felly byddwn yn paratoi ar gyfer gwahanol senarios dros y misoedd nesaf. Ym mhob achos, rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu dychwelyd tuag at normalrwydd yng ngwanwyn 2021, ond dim ond yn y senario gorau posibl lle mae nifer isel o achosion am gyfnod parhaus y gallwn gynnal y llinell amser a nodir isod. Ar bob cam, byddwn yn parhau i wneud penderfyniadau nad ydynt yn peryglu ail uchafbwynt heintiau a fyddai'n gorlethu'r GIG.

O 1 Awst ymlaen, os yw nifer yr achosion yn aros o gwmpas neu'n is na'r lefelau cyfredol, byddwn yn cymryd y camau dilynol:

- **Rhoi mwy o ddisgresiwn i gyflogwyr ynghylch sut maent yn sicrhau y gall gweithwyr weithio'n ddiogel.** Mae gweithio gartref yn un ffordd o wneud hyn, ond gellir gwneud gweithleoedd yn ddiogel hefyd trwy ddilyn canllawiau Diogel ar gyfer COVID-19.
- **Ailagor y mwyafrif o leoliadau hamdden sy'n weddill, sef bowlio, lloriau sglefrio a chasinos, ynghyd â chanllawiau Diogel ar gyfer COVID-19.** Ni fydd hyn yn cynnwys gweithgareddau a lleoliadau â risg uchel iawn megis clybiau nos, a gedwir dan adolygiad.

- **Galluogi ailgychwyn perfformiadau dan do** i gynulleidfa fyw, yn unol â chanllawiau Diogel ar gyfer COVID-19, yn amodol ar lwyddiant cynlluniau peilot sy'n cael eu cynnal cyn gynted â phosibl.
- **Galluogi pob gwasanaeth cyswllt agos i ailddechrau**, gan gynnwys unrhyw driniaethau ar yr wyneb megis edafu aeliau neu osod colur, gan weithio'n agos gyda'r sector ac arbenigwyr iechyd cyhoeddus i sicrhau y gellir gwneud hyn mor ddiogel â phosibl ac yn unol â Chanllawiau Diogel ar gyfer COVID-19.
- **Cynnal cynlluniau peilot mewn lleoliadau ag ystod o feintiau tyrfaoedd**, yn arbennig wrth ymgynnull o wahanol leoedd, gan gynnwys stadia chwaraeon a digwyddiadau busnes. Bydd y cynlluniau peilot, y bydd rhai ohonynt yn cychwyn tua diwedd mis Gorffennaf, yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n ofalus i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ar lacio'r rheolau ymhellach. Os bydd cynlluniau'n symud ymlaen yn unol â'r disgwyliadau, bydd cynlluniau peilot yn ehangu i adeiladu at, a pharatoi ar gyfer dychweliad llawn, wrth gadw pellter cymdeithasol, yn yr hydref.
- **Galluogi derbyniadau priodas**; prydau eistedd i lawr i ddim mwy na 30 o bobl, yn amodol ar ganllawiau Diogel ar gyfer COVID-19. Dros gyfnod o amser, byddwn yn asesu a ellir gwneud cynulliadau o'r math hwn at ddibenion eraill yn bosibl a phryd y gall derbyniadau priodas mwy gael eu cynnal.

Ym mis Medi, bydd ysgolion, meithrinfeydd a cholegau yn agor ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ar sail amser llawn. Bydd ysgolion, meithrinfeydd a cholegau yn rhoi mesurau amddiffynnol ar waith i leihau'r risgiau i blant ac athrawon a lleihau'r risg o drosglwyddo. Mae hyn yn cynnwys cadw plant a phobl ifanc mewn grwpiau cyson o ran dosbarth neu flwyddyn ac annog plant hŷn i gadw eu pellter oddi wrth ei gilydd a staff

Ile bydd hynny'n bosibl. Mae hyn ochr yn ochr â mesurau amddiffynnol megis glanhau a golchi dwylo yn rheolaidd. Byddwn hefyd yn darparu pecynnau profi cartref i ysgolion a cholegau ar gyfer plant a staff na fyddent fel arall yn gallu cael prawf. Er mai ein cynllun yw i'r holl ddisgyblion fod yn ôl yn yr ysgol ym mis Medi, efallai y bydd achosion lleol yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddsbarthiadau, grwpiau blwyddyn neu hyd yn oed ysgolion cyfan ynysu neu gael eu hanfon adref dros dro, felly bydd angen i bob ysgol hefyd gynllunio ar gyfer sut y byddant yn sicrhau parhad addysg dan yr amgylchiadau hynny. Mae prifysgolion hefyd yn gweithio i ailagor mor llawn â phosib.

Os bydd nifer yr achosion yn aros o gwmpas neu'n is na'r lefelau cyfredol i mewn i'r hydref, byddwn yn dod â chynulleidfaedd yn ôl mewn stadia, ac yn caniatáu i gynadleddau a digwyddiadau busnes eraill ailgychwyn mewn ffordd sy'n Ddiogel ar gyfer COVID-19, o 1 Hydref ymlaen. Dim ond ar ôl i ni gael dealltwriaeth wyddonol ddibynadwy o effaith ailagor ysgolion ar yr epidemig y bydd y cam hwn yn digwydd.

Os bydd nifer yr achosion yn gostwng yn sylweddol iawn, byddwn yn adolygu'r angen am y mesurau sy'n weddill ac yn caniatáu dychweliad mwy sylweddol i normalrwydd. Byddai hyn yn dechrau trwy gael gwared ar yr angen i bobl gadw pellter cymdeithasol, gan gadw mesurau lliniaru cyfyngedig megis gorchuddion wyneb a sgriniau plastig mewn siopau. Ein huchelgais yw y gallai hyn fod yn bosibl erbyn mis Tachwedd ar y cynharaf, ond byddai hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys ystyried yr heriau penodol wrth i ni symud i'r gaeaf, fel y disgrifir uchod.

Mae'r llinell amser hon yn cynrychioli ein huchelgais i ddychwelyd i normalrwydd, ond rydym yn barod i weithredu'r brêc llaw ar y cynllun a nodir uchod, os oes angen. Mewn rhannau o'r byd, mae achosion o'r feirws yn cynyddu'n gyflym ac rydym am osgoi hynny yn y DU. Dylai pobl a busnesau fod

yn barod ar gyfer y posibilrwydd y byddwn yn oedi ein hamserlen ar gyfer ailagor, neu wrthdroi newidiadau mewn ffordd wedi'i thargedu i ymateb i achosion newydd. Dim ond os oedd yn gwbl angenrheidiol y byddai hyn yn cael ei wneud.

Bydd y misoedd sy'n dod yn parhau i brofi ein hadnoddau, ein dyfeisgarwch a'n penderfyniad. Byddwn yn wynebu heriau newydd a bydd angen i ni fod yn hyblyg yn ein hymateb i sicrhau ein bod yn parhau i symud tua'r cyfeiriad cywir. Bydd angen ymrwymiad arnom gan bawb i amddiffyn ein gilydd a chefnogi ein heconomi: gan y Llywodraeth i ddatblygu'r system profi ac olrhain a fydd y gorau yn y byd a chefnogi ein gwasanaethau a'n busnesau; gan ein gwyddonwyr o'r radd flaenaf i ganfod triniaethau effeithiol a brechlyn; a chan ein gweithwyr allweddol rhagorol a fydd yn parhau i ofalu am y rhai sy'n dioddef o'r feirws.

Nodiadau

1. Gweithgarwch Misol y GIG: Hysbysiad Ystadegol i'r Wasg, Mai 2020.
2. ONS (2020), Amcangyfrif misol GDP, DU: Mai 2020. Y ffigur yw 24.5%.
3. OBR, Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol, Gorffennaf 2020.
4. Ibid.
5. IFS (2020), Effaith idiosyncratig sioc gyfanredol: canlyniadau dosbarthiadol COVID-19
6. 119 yw'r rhif ar gyfer Cymru a Lloegr. Dylai pobl yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ffonio 0300 303 2713.
7. <https://acmedsci.ac.uk/file-download/51353957>
Academi'r Gwyddorau Meddygol: Paratoi ar gyfer Gaeaf Heriol 2020/21.
8. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/892043/S0484_Transmission_of_SARS-CoV-2_and_Mitigating_Measures.pdf

CCS0720895930

978-1-5286-2089-5